Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

17 Ionawr 2019

Annwyl Gyfaill

**Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau**

Fel y byddwch yn ymwybodol, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei Adroddiad ar Wasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau ym mis Gorffennaf 2018.

Mae'r adroddiad yn dangos bod gwasanaethau y tu allan i oriau o dan straen sylweddol. Yn gyffredinol, mae cleifion yn fodlon â'r gwasanaethau a ddarperir, ond mae morâl gwael ymysg y staff a'r anawsterau o ran llenwi sifftiau yn bygwth cydnerthedd gwasanaethau mewn sawl rhan o Gymru, ac mae angen dull mwy cynaliadwy i gwrdd â'r heriau hyn.

Canfu'r adroddiad nad yw safonau cenedlaethol ar amseroldeb penodiadau yn cael eu bodloni a bod angen rhoi gwell wybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i gael mynediad at wasanaethau. Mae diffyg gwybodaeth am ansawdd a pherfformiad gwasanaethau hefyd, ac mae hyn yn rhwystro'r gallu i reoli gwasanaethau yn effeithiol yn genedlaethol ac yn lleol. Fel arfer, caiff gwasanaethau y tu allan i oriau eu cynllunio ar wahân i wasanaethau eraill, er gwaethaf y ffaith eu bod yn rhan o system gofal brys ehangach.

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cynnal ymchwiliad i ganfyddiadau'r Adroddiad hwn ac, yn benodol, bydd yn trafod:

- Perfformiad, a phrofiad y cleifion
- Cynaliadwyedd ariannol a chlinigol
- Gwybodaeth a rheoli perfformiad
- Integreiddio gwasanaethau y tu allan i oriau â gwasanaethau eraill

Bydd yr ymchwiliad hefyd yn ystyried:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

- Cwmpas y gwasanaethau y tu allan i oriau
- Safonau cenedlaethol
- Cynllunio o ran y gweithlu
- Ymgysylltu o ran y staff
- Asesiadau ansawdd
- Lledaenu ymarfer arloesol
- Trefniadau Arweinyddiaeth Genedlaethol
- Y gwasanaeth '111'

Dyma ysgrifennu atoch yn gwahodd eich sylwadau ar ganfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar y meysydd y bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio arnynt. Byddai'n dda cael eich ymateb erbyn 15 Chwefror.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**